

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Ionawr 21ain - 2015
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cynghorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Maldwyn Williams (MW), Gill Cheverton (GR), Dafydd Pritchard (DP), Bari Gwilliam (BG), Mark Williams (MA), Paul Gash (PG), Carwyn Jones (CJ) a Lewis Davies (LD).

2. Ymddiheuriadau - Cyng. Rhian Hughes, Alwena Roberts a Alwyn Rowlands.

3. Datgan Ddiddordeb

Cyng. M Williams ar drafodaeth Ty'n Waun

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17ddeg o Ragfyr fel rhai cywir gan Cyng. D Pritchard, eilio gan Cyng. G Cheverton.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 **Fynwent Llanddona** – dim newyddion ymhellach.

5.2 **Llwybr Tai Bach** - Clerc wedi derbyn e-bost oedd yn gynnwys crynodeb o'r materion allweddol oddi wrth y Cyngor Sir. Disgwyl copi o'r adroddiad o'r ymchwiliad drafft nawr.

5.3 **Difrod ar y Traeth** – ar yr agenda

5.4 **Gwasanaeth Cymdeithasol, adeiladu cymunedau Pobl Seiriol** - Cyfarfod nesaf o'r grŵp 29/01/15 am 6 o'r gloch yn Ysgol Biwmares, i fwydo'n ôl gwaith ymgynghori yn Ward Seiriol. Lolfeydd Cymunedol yn Llangoed a Llanddona yn cael ei hail addurno a chael dodrefn newydd.

5.5 **Biniau yn Ponc y Felin** - cais wedi ei gyflwyno gan Cyng. C Jones.

5.6 **Cerrig ger Llain Gron** - Rydym wedi derbyn llythyr a lluniau gan y perchennog o'r difrod i ymyl y ffordd sydd yn cael ei gwneud gan lori wastraf'. Maent yn datgan bod y cerrig wedi eu gosod ar gyrion ei ffin. Mae'n ymddangos nad yw'r ffordd yma yn addas ar gyfer loriau mawr. Yn flaenorol oedd y lori yn gwrthdroi lawr o gyfeiriad y Tai Cyngor. MR wedi cysylltu ar Cyngor Sir, disgwyl ymateb. Cyng. L Davies i drafod y mater gyda'r Cyngor Sir yn y lle cyntaf. Clerc i anfon llythyr i'r perchennog.

5.7 **Tir Ty'n Waun** - MW yn adrodd bod tir wedi ei gofrestru anghywir gan Menter Môn ers 2001, ac maent yn barod i gydweithio i ddatrys y mater, trwy ewyllys da. Gadawodd MW y cyfarfod ar y fan yma, fel y gallai'r Cyngor Cymuned benderfynu ar yr opsiynau sydd ar gael. Dilyn trafodaeth cynigwyd gan BG i MW fynd ar weithredoedd i'n cyfreithiwr. Eilio gan MA, pawb yn gytûn.

5.8 **Fforddiant (Wayleave)** - Clerc wedi derbyn e-bost oddi wrth Menter Môn, lle maent wedi derbyn o ddeutu £150 yn flynyddol a bydd yn cael eu trosglwyddo i'r Cyngor Cymuned ar ddiwedd 2015. Clerc i ysgrifennu i Scottish Power.

5.9 **Baw Cŵn** - CJ wedi ymuno a chyfarfod 20/01/15 - Atal Troseddau gyda PCSO Natalie Tookey ar Warden Cŵn a oedd yn bresennol. Nid oes neb wedi ei erlid yn y chwe mis diwedda. Wedi gadael bagiau baw cŵn sydd ar gael yn yr Owain Glyndŵr.

5.10 **Tyllau lonydd lleol** - ar y ffordd o Penhwnllys Bach i Fryngwyn. Tyllau mwyaf wedi cael ei hatgyweirio, gan ddisgwyl i'r Cyngor Sir ddod yn ôl i gwblhau'r gwaith.

5.11 **Safle Bws** – wedi ei osod ger Llwyn Collen. Clerc i ddiolch

5.12 **Caeau Canmlwyddiant** - GC yn adrodd - bod gennym ddau gae chwarae i ofalu am, ac oherwydd y rheolau sy'n ymwneud a chaeau canmlwyddiant ar sefyllfa gyda'r Ysgol ar hyn o bryd, yn cynnig peidio â chofrestru am y tro. MW yn eilio, pawb yn gytûn.

5.13 **Lôn Chwarel Wen** – gwaith mewn llaw.

6. Adroddiad gan y Cynghorwyr

LD - wedi cysylltu ar Cyngor Sir ynghylch y tyllau ar lôn ganol. Hefyd wedi codi mater gyda'r dŵr yn casglu yn y pant ar y ffordd ger Hendre Boeth a Farcen Wen. DP yn adrodd bod dŵr yn casglu ger mynedfa i fferm Ffordd Deg.

LD - mae Banc Bwyd nawr wedi agor yn Eglwys Oasis Biwmares. Mae pryder bod yna teuluoedd dan anfantais yr ardal yma.

CJ - wedi gofyn i'r Cyngor Sir graeanu Lôn Hafodty a heibio Tai Cyngor Ponc y Felin, a dim troi rownd wrth yr Owain Glyndŵr. Wedi egluro fod y Bws Ysgol yn defnyddio'r ffordd yma, a bod cerbyd wedi mynd trwy'r wal bore blaen. GC yn adrodd bod y Cyngor Sir wedi blaenoriaethu ffordd hon fel "Blaenoriaeth 2". Ffordd hon yn dueddol o rew o ran ei ardal agored.

Cyngor Sir wedi gofyn iddynt graeanu'r ffordd yma yn hytrach na'r ffordd i Fiwmares? Wedi gofyn iddynt graeanu ddwy ffordd. Clerc i anfon llythyr.

CJ - band llydan uwch gyflym - wedi trafod y mater gyda swyddog o BT, debygol y bydd ar gael ym mhob darn o'r Ynys erbyn canol flwyddyn nesaf. Llanddona i fod i gael ffibr i eiddo o 300mps.

CJ - awgrymu anfon sylwadau ynghylch cyllideb y Cyngor Sir 2015/16, toriadau mawr ar y gweill. Treth Cyngor Sir yn codi 5%.

7. Ysgol Llanddona

GC yn dangos map oddi wrth y Cyngor Sir a oedd yn nodi'r darn o dir a fydd ar gael ei werthu gyda'r ysgol. O leiaf mae map y Cyngor Cymuned ar Cyngor Sir yr un fath. Mae'r Cyngor Sir nawr yn disgwyl am werthusiad o'r safle. Bydd Pwyllgor y Neuadd yn gofyn am lythyr oddi wrth y Cyngor Cymuned i ofyn y gall defnyddio'r tir ar gyfer y Cymuned. Hefyd codwyd pryder ynghylch gardd gyfagos.

8. Y Traeth

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn ar gerrig sydd wedi eu gosod yn y manau parcio. Mae hyn i atal cerbydau suddo'r tir, oherwydd bod y tonnau mawr yn golchi'r tir i ffwrdd ac yn difetha'r ardal. Penderfynwyd bod yr arwyddion a gosodwyd wedi helpu gyda phroblem parcio, ond mi fydd angen ymweliad safle a thrafodaeth gyda'r deiliaid cyfagos. PG yn cytuno i fonitro'r sefyllfa am nawr.

9. Ceisiadau Cynllunio

Dim cais i drafod.

Er gwybodaeth

- 22C223 - Cais llawn ar gyfer dymchwel yr ystafell haul presennol ynghyd ac addasu ac ehangu yn Pant y Bwlch, Llanddona - wedi ei caniatáu.
- 22C47B/1 - Cais llawn ar gyfer codi ports a modurdy yn 7 Wern Farm Estate, Llanddona - wedi ei caniatáu.
- 22C222 - Cais amlinellol ar gyfer codi anneddd gyda'r holl faterion wedi'u gadw'n ôl ar dir ger Gwelfryn, Llanddona - wedi ei caniatáu.
- 22C189E/VAR - Cais o dan adran 73 i ddiwygio amod (02) o caniatad cynllunio 22C189C/DA er mwyn codi uchder codi'r ty ar dir ger Glan Gors, Llanddona - wedi ei caniatáu.

10. Cyfrifon

- Cyflog y Clerc, Hydref / Rhagfyr 2014 - £429.73
- Archeb 2015/16 - Dilyn trafodaeth, penderfynwyd nid oedd angen gwariant ychwanegol ar gyfer 2015/16, cawsom gynnig gan MW i beidio â chodi'r archeb, eiliwyd gan BG, gyda phawb yn gytûn.
- Trafodwyd cyflog y Clerc ar gyfer 2015/16 - gadawodd y Clerc y cyfarfod ar y fan yma. Cytunwyd i godi cyflog y Clerc o £100 y flwyddyn a chael ei adolygu flwyddyn nesaf.

Incwm

- 3ydd Archeb £1,716.66

11. Gohebiaeth

Llythyr - Llain Gron.

Llythyr - Enwebiadau ar gyfer Blwyddyn Newydd 2016

Apêl - Bro Goronwy, Eisteddfod Môn

e-bost - Daily Post

e-bost - Menter Môn, taliadau fforddiant

e-bost - Cyngor Sir, cyfarfod Bobl Seiriol 29/01/15

e-bost - E Evans, Llwybr Tai Bach

e-bost - Trefor H Jones, Cyngor Sir, Llwybr Tai Bach

Llythyr - Cyngor Sir, Llwybr Tai Bach

12. UFA:

12.1 Wedi derbyn cais oddi wrth ohebydd or Daily Post, gofyn am gopiâu o'n agenda. Cytunwyd i anfon ymlaen.

12.2 Dilyn trafodaeth ynglŷn â biniau lleol, penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir oes posib cael gosod bin ger Pengorffwysfa.

12.3 Cawsom gais i wneud yr agenda yn ddwyieithog. Pawb yn gytûn.

12.4 Trafodaeth wedi cychwyn i drefnu taith feicio gymunedol eto lenni, o gwmpas mis Mai.

12.5 National Grid wedi penderfynu gosod llinell uwchben newydd ar beilonau o'r Atomfa newydd yn Wylfa i'r orsaf ym Mhentir, gyda'r llinell yn mynd o dan ddaear yr Afon Menai.

12.6 Ymgynghoriad i Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, dechrau 16/02/15 hyd at 31/03/15. Clerc i anfon y linc ymlaen i bawb.

12.7 BG yn codi'r broblem parcio beryglus ger Pen Helyg.

13. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 10.05 o'r gloch.

Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 18/02/15 am 7.30 yn Capel Peniel.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad